

Partneriaeth Pensiwn Cymru

ADRODDIAD HINSAWDD CYMRU GYFAN

Chwefror 2026



TROSOLWG

Mae effaith gweithgarwch dynol ar ein system hinsawdd yn parhau i'w gweld ar draws y byd, wrth i recordiau newydd am y tymereddau uchaf erioed gael eu gosod flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn sgil hyn mae llywodraethau ledled y byd – gan gynnwys yma yng Nghymru – wedi datgan argyfwng hinsawdd a gwneud ymrwymïadau i ddatgarboneiddio. Mae Senedd Cymru wedi gosod targed sero net ar gyfer 2050, ynghyd â thargedau interim ar gyfer 2030 a 2040, ac mae wedi bod yn gosod cyllidebau carbon ar gyfer Cymru ers 2016. Mae'r cyngor diweddaraf gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd¹ yn cefnogi'r targedau a'r llwybrau allyriadau presennol ac yn ystyried nifer o argymhellion ar gyfer y Bedwaredd Gyllideb Carbon (o 2031 ymlaen). Mae hyn yn cynnwys lleihau'r ddibyniaeth barhaus ar danwydd ffosil a chynyddu buddsoddiad mewn technolegau newydd, gan gynnwys systemau ynni adnewyddadwy.

Y Cefndir

Gydag asedau gwerth £25.8 biliwn (ar 31 Mawrth 2025), mae wyth Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Cymru, sy'n rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), yn darparu buddion i filoedd o weithwyr presennol a blaenorol y sector cyhoeddus. Mae'r asedau wedi'u buddsoddi'n eang ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol a dosbarthiadau asedau. Prif nod y buddsoddiadau hyn yw cynhyrchu enillion a fydd yn caniatáu i fuddion pensiwn barhau i gael eu talu yn y dyfodol. O fewn yr asedau hyn, mae angen edrych ar ba ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i newid hinsawdd, y risgiau a allai ddod yn sgil hynny, a sut y gall buddsoddiadau gyfrannu'n gadarnhaol at atebion hinsawdd.

Ystyriaeth y Cronfeydd ar y cyd o newid hinsawdd sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan yr wyth Awdurdod Cyfansoddol sy'n gyfrifol am y Cronfeydd, y mae pob un ohonynt hefyd yn rhanddeiliaid PPC. Paratowyd yr adroddiad hwn ar eu rhan gan Hymans Robertson LLP er mwyn gwneud y canlynol:

1 Asesu'r cynnydd ers i PPC gynnal asesiad hinsawdd cyntaf Cymru gyfan yn 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng diwedd Mawrth 2022 a diwedd Mawrth 2025.

2 Asesu, hyd y gellir, yr amlygiad i wahanol agweddau ar risg a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar draws yr holl asedau pensiwn o fewn y Cronfeydd - nid yn unig y rhai a reolir gan PPC.

3 Nodi pa gamau pellach y gall y Cronfeydd a PPC eu cymryd i ymdrin ymhellach â'r her o ran yr hinsawdd.

Beth rydym wedi'i wneud

Ers i ni gwblhau ein hadroddiad hinsawdd cyntaf yn 2023, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn ein huchelgeisiau ar y cyd. Mae'r cynnydd hwn wedi'i gofnodi yn yr adroddiad hwn, sy'n dangos ein bod wedi cyflawni'r canlynol:

➤ Gweld gostyngiad o 38% mewn allyriadau carbon (wedi'u mesur yn ôl Dwysedd Carbon Cyfartalog wedi'i Bwysoli) cwmnïau y mae ein hasedau ecwiti wedi'u buddsoddi ynddynt. Gellir priodoli hyn i gamau gweithredu cwmnïau buddsoddi sylfaenol, lle mae dwysedd allyriadau wedi gostwng rhwng 14% a 31% ar draws ein prif ls-gronfeydd ecwiti, ac ailddyrrannu cyfalaf rhwng cwmnïau yn y portffolios hyn.

➤ Cyfuno'r rhan fwyaf o'n buddsoddiadau ecwiti goddefol mewn cronfa gyfunol newydd y mae gennym fwy o ddylanwad arni. Mae'r gronfa hon hefyd yn cynnwys ein polisi pleidleisio ein hunain, sy'n golygu bod polisi pleidleisio PPC ei hun bellach yn cael ei ddefnyddio wrth bleidleisio ynghylch 85% o'n hasedau ecwiti cyfunol.

➤ Sefydlu ein fframwaith hinsawdd, sy'n cefnogi'r ffordd rydym yn gwerthuso nodweddion hinsawdd ein hasedau. Roedd hefyd yn cefnogi'r gwaith o greu ein cronfa oddefol.

¹Cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd i Lywodraeth Cymru ar dargedau presennol, credydau rhyngwladol, a chyfrifyddu carbon

- ◆ Sefydlu ein rhaglenni marchnadoedd preifat. Mae dros £1bn o asedau bellach wedi'u hymrwymo i'r strategaethau hyn. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn ein hymrwymiaidau i seilwaith ynni adnewyddadwy.
- ◆ Cefnogi'r gwaith, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, o greu seilwaith ynni yng Nghymru, gan gynnwys buddsoddi mewn rhaglen i ariannu datblygu ynni gwynt.
- ◆ Drwy Robeco, ymgysylltu â X o gwmnïau ar faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar draws Y o wahanol themâu.
- ◆ Hyrwyddo pwysigrwydd lechyd y Môr fel pwnc ymgysylltu, gan arwain Robeco i weithredu rhaglen barhaus o ymgysylltu â chwmnïau ar y pwnc hwn.

Rydym yn falch o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy. Yn unol â hynny, rydym yn ymrwymo i'r camau canlynol:

- ◆ Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau monitro ac adrodd ar allyriadau carbon i egluro'r rhesymau dros newid yn well a sicrhau ein bod yn gallu dal y sefydliadau yr ydym yn buddsoddi ynddynt yn briodol atebol. Byddwn hefyd yn parhau i nodi enghreifftiau o arferion da y gallwn eu defnyddio i egluro ein safbwynt i randdeiliaid.
- ◆ Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheolwyr buddsoddi a phartneriaid eraill i wella cysondeb yn ein trefniadau casglu data, yn enwedig ar draws marchnadoedd preifat, ac annog datgelu lle mae hyn yn fuddiol ac yn ymarferol.
- ◆ Byddwn yn sicrhau bod ffocws priodol yn cael ei roi ar weithgaredd trawsnewid cwmnïau uchel eu heffaith. Byddwn yn sicrhau bod ein stiwardiaeth yn ddigon cadarn wrth ddal i gyfrif sefydliadau sydd angen ymrwymo i newid hirdymor, ond bod sefydliadau'n cael eu cefnogi i wneud hynny.
- ◆ Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith o adolygu ein fframwaith buddsoddi i sefydlu cyfres briodol o gyfyngiadau sylfaenol y gellir ~eu hymestyn ar draws PPC yn ei chyfanrwydd.
- ◆ Byddwn yn gweithio i sicrhau y gallwn nodi cwmnïau sy'n cyfrannu at atebion hinsawdd, gan gydnabod ei bod yn debygol y bydd gwahaniaethau o ran diffiniadau a heriau wrth sicrhau bod data ar gael. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheolwyr marchnadoedd preifat i gwblhau fframwaith priodol ar gyfer adrodd ar yr hinsawdd.
- ◆ Wrth i asedau gael eu cyfuno yng Nghwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC, byddwn yn gweithio i gynyddu cyfran yr asedau ecwiti sy'n destun pleidlais o dan bolisi pleidleisio PPC i 100%.

Mae PPC yn falch o allu dangos cynnydd parhaus o ran ei hymdrechion i sicrhau bod materion hinsawdd yn cael sylw ar draws ein trefniadau buddsoddi. Gan gydnabod y newid sydd ar droed mewn trefniadau llywodraethu, byddwn yn gweithio gyda'r Cwmni Rheoli Buddsoddiadau newydd i sicrhau bod ein huchelgeisiau o ran yr hinsawdd a gofynion parhaus y Cronfeydd yn cael eu cyfleu'n briodol, a bod polisiau a phrosesau'n cael eu diweddarau i ganiatáu i'r Cwmni Rheoli Buddsoddiadau fwrw ymlaen â'n gwaith yn effeithiol.



Cllr Peter Lewis
Cadeirydd y
Cyd-bwyllgor
Llywodraethu
Chwefror 2026

CYNNYDD A WNAED YN ERBYN YR ARGYMHELLION

Gwnaeth adroddiad 2023 gyfres o argymhellion y cytunwyd arnynt yn y pen draw gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Ers i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at y nodau hynny, fel yr amlinellwn isod.

Cam a gytunwyd: Bydd PPC yn datblygu fframwaith hinsawdd er mwyn cefnogi trafodaeth yn y dyfodol a meithrin consensws ynghylch yr uchelgais o ran yr hinsawdd. Bydd fframwaith o'r fath yn cynnwys cytuno ar dacsonomeg gyffredin a sail gyffredin ar gyfer gosod targedau hinsawdd, gan gydnabod y gwaith y mae rhai Cronfeydd eisoes wedi'i wneud. Bydd hyn yn cefnogi gwaith i ddatblygu cynnyrch yn y dyfodol, datblygiad polisïau ac ymdriniaeth gyson ag adroddiadau.

Canlyniad: Mae fframwaith hinsawdd wedi'i ddatblygu ar gyfer PPC a chyfeirir ato ymhellach yn yr adroddiad hwn. Mae wedi llywio'r gwaith o ddatblygu ein hadroddiadau a'n goruchwyliaeth fewnol. Roedd y fframwaith hefyd yn sail i ddatblygu cronfa oddefol newydd PPC.

Cam a gytunwyd: Bydd PPC yn asesu ei His-gronfeydd presennol yn erbyn y fframwaith hinsawdd cyffredin i ystyried sut y gellir datblygu uchelgeisiau hinsawdd ac archwilio datblygiad parhaus ei chynigion buddsoddi.

Canlyniad: Mae Is-gronfeydd unigol PPC wedi'u hasesu yn erbyn fframwaith hinsawdd PPC drwy ein trefniadau monitro mewnol. Rydym hefyd wedi ymgorffori asesiad yn erbyn ein fframwaith hinsawdd yn yr ymarfer adrodd hwn. Mae gwaith pellach hefyd wedi'i wneud gyda Russell i ystyried sut y gellir gwneud newidiadau i Is-gronfeydd presennol, gan ymestyn ein troshaen Carbon Isel bresennol a gwneud newidiadau yn ein Cronfa Credyd Byd-eang.

Cam a gytunwyd: Bydd PPC yn adolygu ei gofynion cyfredol ar gyfer ecwiti goddefol. Bydd yn ymgynghori â Chronfeydd ynghylch bodloni eu gofynion ecwiti goddefol a'r nodau hinsawdd cysylltiedig, ac yn ystyried sut y gellir rhoi'r rhain ar waith yn ymarferol. Wrth wneud hyn, bydd PPC yn ystyried sut y gellir ymestyn ei Pholisi Stiwardiaeth ar draws asedau goddefol.

Canlyniad: Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ynghylch yr amcan hwn, wrth i Gronfa Mewnwelediadau ESG y Byd PPC - Aquila Life gael ei lansio ym mis Tachwedd 2025. Mae hyn wedi rhoi tua £4.0bn o asedau ecwiti ychwanegol dan reolaeth uniongyrchol PPC. Bydd datblygu'r Gronfa hefyd yn rhoi'r rhan fwyaf o asedau ecwiti goddefol o fewn c

wmpas uniongyrchol Polisi Stiwardiaeth PPC. Gan ddefnyddio 'dewis pleidleisio' BlackRock, mae Robeco wedi'i benodi i bleidleisio ar ddaliadau o fewn y Gronfa. Mae'r astudiaeth achos ar dudalen 12 yn egluro hyn ymhellach.

Cam a gytunwyd: Bydd PPC yn datblygu trefniadau pellach i fonitro alinio wrth drawsnewid asedau, gan nodi bod datblygu targedau cysylltiedig hefyd yn fater lle gall perchnogion asedau arfer dylanwad dros sefydliadau, yn enwedig drwy bleidleisio ac ymgysylltu.

Canlyniad: Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae PPC wedi datblygu ei hadroddiadau mewnol ar risgiau hinsawdd ac ESG i ymgorffori metrigau alinio, gan ddefnyddio'r Fframwaith Buddsoddi Sero Net. Mae hyn yn cefnogi ymagwedd PPC at ymgysylltu, yn benodol y cwmnïau hynny mewn sectorau o bwys sydd angen gwneud mwy i gyd-fynd â thrywydd datgarboneiddio.

Cam a gytunwyd: Bydd PPC yn adolygu ac yn datblygu ei thema stiwardiaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Bydd PPC yn cytuno ar restr o gwmnïau 'ffocws hinsawdd' a fydd yn cael eu harchwilio ymhellach, ar draws mandadau gweithredol a goddefol (o fewn dyraniadau ecwiti yn y lle cyntaf). Bydd y rhestr yn cynnwys y stociau hynny o fewn y sectorau hynny yr effeithir arnynt yn sylweddol, lle ceir y risg fwyaf o ran yr hinsawdd.

Canlyniad: Mae PPC wedi parhau i ddatblygu ei thema stiwardiaeth sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Mae hefyd wedi datblygu rhestr ffocws hinsawdd sy'n cynnwys 44 o gwmnïau sydd bellach yn destun archwilio parhaus ychwanegol.

Cam a gytunwyd: Bydd PPC yn parhau i asesu ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y metrigau ar gyfer asedau PPC yn flynyddol, ac yn ailadrodd yr ymarfer 'Cymru gyfan' hwn ar 31 Mawrth 2025.


Canlyniad: Cyhoeddodd PPC adroddiad y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd ar 31 Mawrth 2024 ac mae wedi cwblhau'r ymarfer hwn ar 31 Mawrth 2025.

LLYWODRAETHU

O fewn y Cronfeydd, mae cyfrifoldebau llywodraethu wedi'u rhannu rhwng y rhai a gyflawnir ar lefel leol a'r rhai a gyflawnir ar lefel Cronfa. Yn gyffredinol, ar lefel leol, Pwyllgor Pensiwn a gynrychiolir gan aelodau etholedig sy'n bennaf gyfrifol am wneud penderfyniadau. Bydd y Pwyllgor Pensiwn yn cael mewnbwn, cyngor a chymorth llywodraethu gan Swyddogion ac ymgynghorwyr allanol, gan allanoli'r gwaith o reoli asedau o ddydd i ddydd i drydydd partion.

Wrth ffurfio PPC ceisiwyd darparu llwybr cyfuno ar gyfer rheoli asedau. Drwy gydweithrediad rhwng yr wyth Awdurdod Cyfansoddol, mae'r gwaith penderfynu wedi'i roi i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu - sy'n cynnwys un aelod etholedig o bob un o wyth Pwyllgor Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol a chynrychiolydd aelodau cynllun (heb bleidlais) cyfetholedig - wedi'u cefnogi gan y Gweithgor Swyddogion, a'i bwrpas yw datblygu polisi a goruchwyllo.

Mae'r gwaith o weithredu strategaethau gan PPC yn cael ei allanoli i drydydd partion i raddau helaeth, ac mae Waystone, Russell Investments, Robeco, Schroders, Grosvenor GCM a Hymans Robertson ymhlith y partneriaid strategol sy'n cefnogi PPC.



Dulliau lleol o ymdrin â newid hinsawdd

Er bod Cronfeydd unigol wedi ystyried newid hinsawdd i wahanol raddau, nid oes nod hinsawdd cyffredin ar lefel cronfeydd cyfunol eto. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r ymrwymïadau lleol sydd wedi'u gwneud:

Tabl 1: crynodeb o ymrwymïadau hinsawdd lleol ar 30 Medi 2025

Wedi gosod dyddiad targed sero net, gan gynnwys amcanion interim	4 Cronfa
Meddu ar uchelgais hinsawdd cyffredinol, a allai gynnwys rhai amcanion	4 Cronfa

Mae rhai Cronfeydd ymhellach ar hyd y daith nag eraill o ran llunio eu huchelgais a rhoi newid ar waith. Mae pob Cronfa wedi gwneud ymrwymïadau i o leiaf un cyfrwng sydd ag amcan yn ymwneud â'r hinsawdd ac mae pob un wedi cefnogi Polisi Hinsawdd PPC.

Dull cronfeydd cyfunol o ymdrin â newid hinsawdd

Mae PPC wedi datblygu ac wedi ceisio gweithredu ei [Pholisi Hinsawdd](#) ei hun, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol, ac mae asesiad o gynnydd yn erbyn pob ymrwymiad polisi yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn. Mae'r polisi hwn yn gweithredu ar y cyd â Pholisi Buddsoddi Cyfrifol ehangach PPC, a'i Pholisi Stiwardiaeth.

O fewn ei Pholisi Hinsawdd, mae PPC wedi nodi nifer o gredoau sy'n helpu i lywio gweithgarwch gan y Gronfa. Rydym yn darparu enghreifftiau isod o sut rydym wedi troi rhai o'r credau hyn yn gamau gweithredu.

Cred	Enghreifftiau o sut mae'r gred hon wedi'i rhoi ar waith
Mae PPC yn cydnabod pwysigrwydd trawsnewid teg ac y bydd newid ein trywydd presennol yn gofyn am ddull cyfannol ar draws pob rhan o'r economi. Bydd y trawsnewid yn golygu cyfnod parhaus o newid, i ffwrdd o economi fyd-eang sy'n dibynnu ar danwydd ffosil yn gyffredinol. Bydd lliniaru ac addasu i effeithiau'r hinsawdd hefyd yn golygu bod angen buddsoddi mewn atebion hinsawdd.	Mae datblygu'r gronfa oddefol newydd wedi cynyddu'r asedau a reolir yn uniongyrchol yn erbyn amcan cynaliadwyedd i dros £5bn. Hefyd, mae ymrwymïadau wedi'u gwneud mewn dyraniadau marchnadoedd preifat i gefnogi seilwaith ynni adnewyddadwy a choedwigaeth. Mae PPC yn parhau i archwilio sut mae datblygu ei pholisïau buddsoddi i ddiwallu anghenion ei rhanddeiliaid.
Mae gwell dealltwriaeth y cyhoedd o risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ochr yn ochr ag ymrwymïadau'r llywodraeth, yn debygol o sbarduno trawsnewid i economi carbon isel a fydd yn cyflwyno nifer o gyfleoedd buddsoddi cryf i fuddsoddwyr, megis Awdurdodau Cyfansoddol PPC, sy'n wybodus ar faterion risg hinsawdd, ac sy'n gallu rheoli a lliniaru risg trawsnewid yn effeithiol.	Mae PPC yn cydnabod y potensial ar gyfer cyfleoedd o ran yr hinsawdd, yn enwedig o fewn ein rhaglenni marchnadoedd preifat. Mae un o'n rheolwyr dyled breifat, er enghraifft, yn ceisio buddsoddi mewn asedau sy'n creu effaith amgylcheddol a/neu gymdeithasol gadarnhaol, gan gefnogi'r broses trawsnewid teg. Mae themâu canolog yn cynnwys seilwaith ynni datganoledig, technoleg grid clyfar a systemau storio batris.
Mae PPC yn cydnabod bod cydnerthedd natur yn angenrheidiol wrth lliniaru ac addasu i newid hinsawdd, a bod diogelu natur yn elfen hanfodol wrth sicrhau allyriadau sero net byd-eang. Mae PPC yn cydnabod bod cysylltiad rhwng natur a hinsawdd, ac yn deall bod yn rhaid mynd i'r afael â'r rhain gyda'i gilydd.	Rydym wedi cymryd camau i fonitro amlygiad i risgiau datgoedwigo o ran nwyddau allweddol, gan ddefnyddio hyn i gefnogi deialog gyda Robeco. Hefyd hyrwyddodd PPC gyflwyno thema ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth forol, a lansiwyd wedyn gan Robeco yn gynnar yn 2025.
Mae'n ddyletswydd ar PPC i nodi ffynonellau risgiau (a chyfleoedd) posibl sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wrth ddatblygu, a pharhau i fuddsoddi mewn unrhyw ateb buddsoddi gan PPC, yn ogystal ag wrth gaffael unrhyw ddarparwr gwasanaeth. Bydd PPC yn ceisio sicrhau bod risgiau a chyfleoedd o'r fath yn cael eu rheoli'n briodol a'u cyfleu i Awdurdodau Cyfansoddol.	Mae ein rheolwyr buddsoddi yn monitro ac yn adrodd ar fetrigau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn barhaus fel rhan o'u diwydrwydd dyladwy rheolaidd, ac mae PPC hefyd yn gwneud ei gwaith monitro chwarterol ei hun. Hefyd, mae'r hinsawdd yn ystyriaeth allweddol wrth asesu unrhyw ddarparwr gwasanaeth neu gynnyrch buddsoddi newydd. Er enghraifft, wrth adolygu ein darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, fe wnaethom bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ynghylch y trawsnewid o ran yr hinsawdd i PPC.
Fel rhan o'i rôl, mae Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC yn cydweithio â pherchnogion asedau eraill i gynyddu effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu'r Bartneriaeth. Mae PPC yn credu y gall cydweithio â pherchnogion asedau eraill a'i rheolwyr buddsoddi fod yn ddull effeithiol o gynyddu ei llais gyda chwmnïau sy'n buddsoddi a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.	Mae PPC yn cymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu ar y cyd â chronfeydd a chronfeydd cyfunol CPLIL eraill drwy Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol. Mewn cydweithrediad â Robeco a pherchnogion asedau eraill, cefnogodd PPC ddau ymgysylltiad hinsawdd penodol yn rhagweithiol yn ystod y flwyddyn - y Datganiad Buddsoddwyr Byd-eang i Lywodraethau ar yr Argyfwng Hinsawdd a llythyr agored at BP - yr edrychwn arno ymhellach isod.

Mae'r polisi hefyd yn nodi rôl PPC ynghylch risg hinsawdd, gan nodi bod y Gronfa Gyfunol yn gwasanaethu fel fforwm ar gyfer cydweithio a gweithredu polisi Cronfeydd yn lleol, yn hytrach nag ysgogi neu ddylanwadu ar bolisi ac amcanion hinsawdd y Cronfeydd. Mae'r cydweithrediad hwn yn creu'r gallu i wneud penderfyniadau ar y cyd ar bolisi hinsawdd a'r canlyniadau y gellir mynd ar eu hôl.

Ein fframwaith hinsawdd

Un o brif argymhellion adroddiad 2023 oedd datblygu fframwaith hinsawdd cyffredin. Pwrpas hwn oedd cefnogi dull cyson o gyfathrebu, pennu polisiau, datblygu strategaeth ac adrodd ar draws PPC a'i rhanddeiliaid. Agwedd allweddol ar y fframwaith hwn fu diffinio'r nodweddion portffolio y mae PPC yn credu sy'n bwysig wrth werthuso materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Nodir nodweddion y fframwaith hwn isod.

Tabl 2: Portfolio characteristics within our climate framework

Nodweddion	Disgwyliadau
Allyriadau carbon	Ein nod yw pennu allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3, ac rydym am weld buddsoddiadau yn dangos trywydd ar i lawr sy'n cael ei fesur ar sail tebyg am debyg. Rydym yn nodi nad oes disgwyl i'r cynnydd ar gyfer lleihau allyriadau Cwmpas 1 a 2 fod yn llyfn. Dylai lleihau allyriadau Cwmpas 3 fod yn gysylltiedig â newid systemau ehangach.
Cyd-fynd â sero net	Ein nod yw asesu cwmnïau yn seiliedig ar ble maent arni ar eu taith gan ddefnyddio fframweithiau sefydledig fel y Fframwaith Buddsoddi Sero Net. Rydym yn cydnabod y bydd cwmnïau yn symud ymlaen yn wahanol yn seiliedig ar natur eu diwydiant a bod deall alinio yn golygu y gellir cymryd camau i effeithio ar ymgysylltu a dyrannu cyfalaf.
Amlygiad i sectorau o bwys	Mae allyriadau carbon fel arfer yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau mewn nifer llai o sectorau – ac mae gan gwmnïau o'r fath fwy o angen i ddatgarboneiddio eu gweithgareddau. Ein nod yw canolbwyntio ar gwmnïau lle gall ymdrechion ymgysylltu gael effaith.
Amlygiad i atebion hinsawdd	Rydym am ddeall amlygiad i gwmnïau sy'n cyfrannu at newid cadarnhaol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Dylai'r gwaith gwerthuso ystyried natur y gweithgaredd, pa mor bwysig yw'r cyfraniad ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Gall trothwyon refeniw gefnogi gwerthuso.
Amlygiad i gwmnïau tanwydd ffosil	Rydym yn pryderu am amlygiad i gwmnïau sy'n ymwneud ag archwilio, echdynnu, mireinio a dosbarthu tanwydd ffosil, a chynhyrchu ynni yn uniongyrchol o danwydd ffosil. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon am adael asedau ar ôl yn yr hirdymor a chyfraniad tanwydd ffosil at newid hinsawdd. Rydym yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o danwydd ffosil a pha mor bwysig yw'r cysylltiad gan ddefnyddio trothwyon refeniw.
Risg i natur	Rydym yn cydnabod y cysylltiad cynhenid rhwng yr hinsawdd a natur ac yn canolbwyntio'n arbennig ar amlygiad i ddatgoedwigo drwy'r gadwyn gyflenwi nwyddau

Er ei fod yn cefnogi ein gweithgarwch monitro i ddechrau, fe wnaethom hefyd ddefnyddio'r fframwaith hwn i helpu i ddatblygu ein hateb goddefol. Rydym am ehangu'r fframwaith hwn o fewn datblygiad parhaus ein hymdrechion polisi a stiwardiaeth, ac mae hwn yn faes ffocws parhaus.

Cefnogi addysg y rhai sy'n gwneud penderfyniadau

Cefnogi dysgu yw un o rolau allweddol PPC. Rydym yn cyflawni hyn drwy ein cynllun hyfforddi blynyddol a sesiynau hyfforddi chwarterol, sy'n rhoi cyfle i ni addysgu ein rhanddeiliaid yn ogystal â darparu platfform lle gallant ymgysylltu â'n darparwyr gwasanaeth ac eraill. Mae'r hinsawdd yn bwnc rheolaidd yr ydym yn darparu hyfforddiant yn ei gylch a dyma rai o'r pynciau sydd wedi cael sylw yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

1. Polisi hinsawdd PPC a chredoau ynghylch yr hinsawdd
2. Ein fframwaith hinsawdd a rhestr ffocws hinsawdd
3. Metrigau sero net a hinsawdd, gan gynnwys cysyniadau cynllunio teithiau sero net a llwybrau trawsnewid
4. Dulliau o reoli buddsoddiadau cynaliadwy
5. Atebion hinsawdd mewn buddsoddiadau marchnadoedd preifat
6. Stiwardiaeth hinsawdd effeithiol

Rydym yn parhau i chwilio am feysydd o ddiddordeb i'n rhanddeiliaid ac yn credu y bydd cynyddu addysg yn caniatáu i ni graffu ar ein hymdrechion a'u goruchwyllo'n well.

Newidiadau llywodraethu

Yn dilyn yr ymgynghoriad 'Addas ar gyfer y Dyfodol', datblygodd PPC gynlluniau i ffurfio ei chwmmi cronfa ei hun a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Cafodd y cynlluniau hyn eu cymeradwyo gan y llywodraeth ac, ar adeg ysgrifennu, mae gwaith yn mynd rhagddo i lansio Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC cyn y dyddiad cau, sef 1 Ebrill 2026. Mae PPC yn disgwyl y bydd y Cwmni Rheoli Buddsoddiadau yn y pen draw yn ymgymryd â llawer o'r gwaith llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'r cyfrifoldebau buddsoddi a stiwardiaeth cysylltiedig, gan adeiladu ar y sylfeini sydd wedi'u sefydlu dros y blynyddoedd diwethaf.

* Maes gweithredu:

Bydd y newid mewn trefniadau llywodraethu yn addasu'r ffordd y mae PPC yn mynd i'r afael â materion hinsawdd. Er y bydd ein huchelgeisiau ar y cyd yn parhau, byddwn yn gweithio gyda'r Cwmni Rheoli Buddsoddiadau i sicrhau bod yr uchelgeisiau hyn a gofynion parhaus y Cronfeydd yn cael eu cyfleu'n briodol. Un agwedd ar hyn fydd sicrhau bod polisiau a phrosesau'n cael eu diweddarau'n briodol.

YMHLE Y BUDDSODDIR EIN HASEDAU

Er mwyn deall sut yr eir i'r afael â newid hinsawdd o fewn asedau Cronfeydd CPLIL Cymru, mae angen ystyried sut y buddsoddir yr asedau hyn. Ar hyn o bryd yr wyth Cronfa sy'n gwneud penderfyniadau strategol a phenderfyniadau ynghylch dyrannu asedau yn lleol, ac mae PPC yn creu atebion ar gyfer buddsoddi asedau.

Wrth i amser fynd heibio, disgwyliwn i asedau'r Cronfeydd gael eu trosglwyddo'n gynyddol tuag at atebion a gynigir gan PPC. Fodd bynnag, bydd materion yn ymwneud â chostau a hylifedd yn rhwystro newid cyflym, yn enwedig mewn dosbarthiadau asedau anhylif. Mae Tabl 3 yn dangos sut mae'r asedau'n cael eu buddsoddi'n gyfunol ar 31 Mawrth 2025, gan ddangos y sefyllfa ar 31 Mawrth 2022 hefyd er cymhariaeth.

Tabl 3: Dyraniad asedau ar draws Cronfeydd CPLIL Cymru

Dosbarth asedau	Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2022			Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025		
	Gwerth (£m)	Dyraniad	Nifer y mandadau	Gwerth (£m)	Dyraniad	Nifer y mandadau
Ecwiti Rhestredig	14,738.4	64.4%	26	15,242.8	59.3%	21
Incwm Sefydlog	4,489.1	19.6%	12	5,305.1	20.7%	16
Eiddo	1,690.3	7.4%	50	1,411.5	5.5%	43
Ecwiti Preifat	812.2	3.5%	136	944.9	3.7%	113
Seilwaith	302.1	1.3%	28	1,442.4	5.6%	45
Aml-asedau	294.0	1.3%	3	115.8	0.5%	1
Dyled Breifat	126.6	0.6%	7	534.1	2.1%	18
Asedau amgen*	432.7	1.9%	14	688.9	2.7%	27
Cyfanswm	22,885.4	100.0%	276	25,685.5	100.0%	284

*Mae asedau amgen yn cynnwys cronfeydd rhagfantoli, coetir ac amaethyddiaeth, rhagfantoli arian cyfred, arian parod. Ffynhonnell: Awdurdodau Cyfansoddol.

Caiff asedau eu buddsoddi'n bennaf mewn marchnadoedd rhestredig, gydag 80.4% (2022: 85.3%) wedi'u buddsoddi ar draws mandadau ecwiti, aml-asedau ac incwm sefydlog ar 31 Mawrth 2025. Mae'r Cronfeydd wedi arallgyfeirio i ffwrdd o ecwiti yn sgil y symudiad parhaus i ffwrdd oddi wrth farchnadoedd rhestredig, ac mae dyraniadau i fandadau marchnadoedd preifat (ecwiti preifat, seilwaith a dyled breifat) i gyd wedi cynyddu.

Mae'r symudiadau mwyaf wedi bod i ddyled breifat (cynnydd o 1.5%) a seilwaith (cynnydd o 4.3%), sy'n dangos bod ymrwymïadau blaenorol wedi'u tynnu i lawr a bod ymrwymïadau newydd wedi'u gwneud i raglenni marchnadoedd preifat PPC a sefydlwyd yn fwy diweddar. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnig y potensial i gael amlygiad uniongyrchol i'r asedau go iawn hynny sy'n gallu mynd i'r afael â risgiau hinsawdd a bioamrywiaeth, megis seilwaith ynni adnewyddadwy a choedwigaeth.

Asedau dan reolaeth PPC

Ar 31 Mawrth 2025, roedd PPC yn gyfrifol yn uniongyrchol am 56% (2022: 48%) o asedau, a hynny ar draws 10 Is-gronfa Gyfunol wedi'u rheoli'n weithredol a rhaglen marchnadoedd preifat PPC. Mae pob un o'r Cronfeydd Partner yn buddsoddi mewn o leiaf dwy Is-gronfa weithredol, gydag un yn buddsoddi mewn cymaint ag wyth. Mae parhau i ddatblygu Is-gronfeydd yn rhan allweddol o gynllun gwaith PPC, ac mae ystyried yr hinsawdd yn elfen hollbwysig wrth ddatblygu rhaglenni buddsoddi yn y dyfodol a rheoli buddsoddiadau presennol.

Tabl 4: Dosbarthu rhaglenni buddsoddi PPC

Cyfunol gweithredol rhestredig	Awdurdodau Cyfansoddol sy'n cymryd rhan	Rheolwyr sylfaenol	31 Mawrth 2025 (£m)	31 Mawrth 2022 (£m)
Ecwiti: Marchnadoedd Datblygol	4	6	273.0	465.7
Ecwiti: Twf Byd-eang	5	4	3,541.1	3,245.8
Ecwiti: Cyfleoedd Byd-eang	5	8	3,402.3	3,765.6
Ecwiti: Cyfleoedd y DU	2	5	765.5	724.2
Ecwiti: Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	8	4	1,524.3	-
Incwm Sefydlog: Bond Elw Absoliwt	3	4	532.8	512.9
Incwm Sefydlog: Credyd Byd-eang	5	4	1,026.5	761.7
Incwm Sefydlog: Llywodraeth Fyd-eang	2	2	503.4	264.1
Incwm Sefydlog: Credyd Aml-asedau	5	5	848.8	749.7
Incwm Sefydlog: Credyd Sterling	1	1	726.5	574.2
Marchnadoedd preifat				
Seilwaith	5–7 ¹	5	680 ²	-
Credyd Preifat	7	1	302 ²	-
Ecwiti Preifat	5	1	114 ²	-
Cyfanswm			14,240.2	11,063.9

¹o ystyried sawl cyfnod ac adrannau gwahanol, gellid dangos amrywiaeth o Awdurdodau Cyfansoddol sy'n cymryd rhan; ²gwerthoedd tynnu i lawr
Ffynhonnell: Waystone/underlying IMs/WPP.

Asedau dan reolaeth anuniongyrchol

Mae gan PPC berthynas sefydledig â BlackRock fel ei phrif reolwr buddsoddi goddefol. Mae hyn yn cwmpasu amrywiaeth o gronfeydd ecwiti ac incwm sefydlog; PPC yw hwylusydd y trefniant hwn, ac wedyn mae Cronfeydd unigol yn contractio'n uniongyrchol â BlackRock. Ar 31 Mawrth 2025, roedd y Cronfeydd wedi buddsoddi ar draws 23 (19 yn 2022) o wahanol gronfeydd BlackRock, fel y nodir yn Nhabl 5, a chyfanswm yr asedau oedd £5.85bn (2022: £6.54bn). Mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o gronfeydd ecwiti gydag amcanion cynaliadwyedd a/neu hinsawdd penodol, buddsoddiadau mewn seilwaith adnewyddadwy ochr yn ochr â chronfeydd ecwiti, incwm sefydlog ac amgen eraill.

Tabl 5: Dyroniadau o fewn BlackRock

Cyfunol weithredol	2022		2025	
	Gwerth (£m)	% Blackrock	Gwerth (£m)	% Blackrock
Ecwiti Carbon Isel y Byd ACS	3,182.3	48.6	3,294.0	56.3
Ecwiti ESG y Byd ACS	133.6	2.0	102.6	1.8
Ecwiti ESG Aml-ffactor y Byd ACS	-	-	76.3	1.3
Cronfeydd Ecwiti Eraill	2,238.4	34.2	1,411.7	24.1
Cronfeydd Incwm Sefydlog	710.2	10.9	558.0	9.5
Cronfeydd Eraill	279.6	4.3	407.3	7
Cyfanswm	6,544.1	100%	5,849.9	100%

Ffynhonnell: Constituent Authorities.

Mae Cronfa Ecwiti Carbon Isel y Byd ACS BlackRock yn olrhain Mynegai Dethol Lleihau Tanwydd Ffossil Targed Carbon Isel y Byd MSCI. Nod y mynegai yw adlewyrchu lefel is o amlygiad i garbon nag sydd gan Fynegai y Byd MSCI, drwy roi cyfran fwy i gwmnïau sydd â lefelau is o allyriadau carbon o gymharu â'u gwerthiant, ac i'r rhai sydd â photensial ar gyfer lefelau is o allyriadau carbon fesul doler o gyfalafu marchnad.

Gan gydnabod nodau ehangach PPC ac adeiladu ar argymhellion adroddiad 2023, ceisiodd y gwaith yn ystod 2024/25 ddatblygu cronfa ecwiti gyfunol bwrpasol gan PPC yn unig a oedd yn bodloni gofynion cyfunol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Parhaodd y gwaith hwn yn ystod 2025, a lansiwyd **Cronfa Mewnwelediadau ESG y Byd PPC - Aquila Life** yn ffurfiol ar 7 Tachwedd 2025, gan gyfuno asedau o'r tair cronfa ACS uchod. Dangosir hyn yn yr astudiaeth achos isod.

ASTUDIAETH ACHOS:

Cronfa Mewnwelediadau ESG y Byd PPC - Aquila Life

Gweithiodd PPC gyda BlackRock i ddatblygu cronfa ecwiti oddefol bwrpasol, newydd sydd wedi cyfuno buddsoddiad ecwiti goddefol mewn un gronfa gyfunol, ac sydd hefyd yn dilyn prosesau stiwardiaeth PPC ei hun.

Cydweithiodd yr Awdurdodau Cyfansoddol â Hymans Robertson a BlackRock i flaenoriaethu'r gwahanol ffactorau a ddymunwyd o fewn y gronfa newydd. Ffactor pwysig yma oedd symud y pwyslais i ffwrdd oddi wrth optimeiddio dyraniadau portffolio yn erbyn allyriadau carbon sy'n edrych yn ôl yn unig, ac yn hytrach ymgorffori ffactorau blaengar wrth ddylunio'r gronfa. Adeiladodd y gwaith hefyd ar y sylfeini a osodwyd wrth ddatblygu ein Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, a oedd yn ymgorffori cyfres o eithriadau wedi'u teilwra ar gyfer datblygu'r cynnyrch hwn.

Drwy broses o ddatblygu ailadroddus ac ymgynghori â rhanddeiliaid a'u hymgynghorwyr eu hunain, fe wnaethom ddatblygu Cronfa sy'n cael ei rheoli yn erbyn Mynegai y Byd MSCI, ond sy'n ystyried pum ffactor:

- Ein sgriniau eithrio cytunedig
- Uchelgais hinsawdd blaengar
- Allyriadau carbon
- Refeniw gwyrdd
- Mewnwelediadau 'BSI Intel' perchnogol BlackRock

Yn ystod y broses ddatblygu, cydweithiodd PPC â Robeco hefyd i sicrhau y gallai'r Gronfa newydd ystyried polisi pleidleisio presennol PPC drwy raglen 'dewis pleidleisio' BlackRock. Mae hyn wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus, sy'n golygu bod tua 85% o fuddsoddiadau ecwiti PPC bellach yn rhan o un rhaglen stiwardiaeth.

Yn dilyn cyfnod pontio, lansiwyd Cronfa Mewnwelediadau ESG y Byd PPC - Aquila Life yn ffurfiol ar 7 Tachwedd 2025, gydag asedau o tua £4.0 biliwn, sy'n golygu mai hwn yw'r mwyaf o fuddsoddiadau cyfunol PPC.

Bydd PPC yn cadw rôl weithredol wrth fonitro perfformiad y Gronfa ac wrth adolygu paramedrau buddsoddi'r Gronfa i sicrhau ei bod yn parhau i feddwl mewn ffordd flaengar.

ALLYRIADAU CARBON

Allyriadau o losgi tanwydd ffosil sydd wedi bod yn brif gyfrannwr at y cynnydd mewn lefelau CO₂ yn yr atmosffer a'r risg gynyddol o newid hinsawdd. Mae angen datgarboneiddio gweithgarwch economaidd yn fyd-eang. Felly, gall asesu'r graddau y mae gweithgarwch economaidd asedau a ddelir gan Gronfeydd CPLIL Cymru yn ddibynnol ar allyriadau carbon ddangos yr angen am newid.

Yn gyffredinol, priodolir allyriadau i ffynhonnell benodol, gan gyfeirio at bob categori gyda'i gilydd fel 'Cwmpas' o allyriadau. Mae Cwmpas 1 a 2 yn cynnwys yr allyriadau hynny sydd o dan reolaeth uniongyrchol endid o ran ei brosesau a'i ddefnydd o ynni. Mae allyriadau Cwmpas 3 yn ymwneud â'r rhai sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi neu sy'n rhan o'r gwaith o ddsbarthu a defnyddio cynhyrchion/gwasanaethau o ran yr endid.

Gan ein bod yn berchnogion asedau, mae allyriadau carbon yn dangos canlyniad y gellir ei fesur yn hytrach na ffactor y mae gennym reolaeth uniongyrchol drosto. Mae'n bwysig i ni fod allyriadau ar draws ein hasedau buddsoddi yn lleihau dros amser. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen i hyn ddigwydd oherwydd bod y sefydliadau sylfaenol yn newid eu gweithgareddau yn hytrach na dim ond drwy werthu asedau allyrru uwch. Rydym yn mesur allyriadau gan ddefnyddio dau fetrig:

- **Dwysedd carbon cyfartalog wedi'i bwysoli (WACI).** Mae WACI yn cyfrifo'r allyriadau nwyon tŷ gwydr (Cwmpas 1 a Chwmpas 2) fesul uned refeniw ar gyfer pob cwmni yn y portffolio, wedi'i bwysoli gan ein dyraniad i bob cwmni. Mae hyn yn dangos y swm cyfartalog o garbon a ddefnyddir i greu gwerthiannau.
- **Dwysedd allyriadau carbon – gwerth menter gan gynnwys arian parod (EVIC).** Mae'r dull hwn yn dosrannu allyriadau yn seiliedig ar strwythur cyfalaf pob cwmni, gan gydnabod bod buddsoddwyr ecwiti a dyled yn berchen ar allyriadau.

Allyriadau carbon

Mae Tabl 6 isod yn nodi allyriadau carbon ar draws yr asedau rhestredig a ddelir gan Gronfeydd Cymru yn 2025 o gymharu hynny â ffigurau tebyg ar gyfer 2022. Mae'r rhain yn cael eu cyfrifo gan gyfeirio at y daliadau gwirioneddol ym mhob un o'r strategaethau sylfaenol a'u pwysoli yn ôl gwerthoedd asedau.

Tabl 6: Dwysedd allyriadau yn ôl dosbarth asedau

Dosbarth asedau	WACI		Ôl troed (EVIC)	
	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2025
Ecwiti rhestredig	103.9	64.2	50.9	34.8
Incwm sefydlog	94.0	141.5	39.3	62.6

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hymans Robertson. Nid ydym wedi dangos y ffigur ar gyfer cronfeydd aml-asedau gan mai dim ond un gronfa o'r fath a ddaliwyd yn 2025 ac roedd ansawdd y data yn wael.

Mae asedau ecwiti wedi dangos gostyngiad o tua 40% mewn WACI dros y tair blynedd rhwng 2022 a 2025, a gwelwyd gostyngiad tebyg ar gyfer y mesur EVIC amgen. Mae Tabl 7 yn dangos dwysedd allyriadau ar draws gwahanol gronfeydd ecwiti a ddelir yn gyffredin.

Tabl 7: Dwysedd allyriadau ar gyfer cronfeydd ecwiti a ddelir yn gyffredin

Is-gronfa	WACI		Ôl troed (EVIC)	
	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2025
Twf Byd-eang PPC	80.6	51.7	43.1	24.7
Cyfleoedd y DU PPC	104.3	54.1	62.1	43.1
Cyfleoedd Byd-eang PPC	117.4	79.1	68.4	52.8
Marchnadoedd Datblygol PPC	238.3	140.6	123.5	80.4
Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy PPC	-	71.3	-	39.5
Ecwiti Carbon Isel y Byd BlackRock	26.9	28.0	5.5	5.5

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hymans Robertson.

Mae'r allyriadau a gofnodwyd wedi gostwng ar draws pob un o'r pedair Is-gronfa ecwiti a reolir yn weithredol sydd ar waith ers mwy na thair blynedd. Gellir priodoli hyn i wahanol ffactorau, gan gynnwys newidiadau i nodau'r cronfeydd, newidiadau i'r ffordd y mae'r cronfeydd yn cael eu buddsoddi a newidiadau i ddyrannu asedau rhwng gwahanol gronfeydd.

Er mwyn asesu yn ehangach sut mae dwysedd allyriadau carbon a gofnodwyd wedi newid, rydym hefyd wedi ceisio priodoli'r rhesymau dros newid rhwng (1) camau gweithredu cwmnïau sylfaenol, a (2) penderfyniadau rheoli buddsoddiadau rheolwyr asedau, gan nodi bod ein troshaen datgarboneiddio hefyd yn effeithio ar hyn.

Yn Nhabl 8, rydym yn dangos achosion newid ar gyfer pum cronfa ecwiti. Rydym yn gwneud hyn drwy dybio bod y portffolio a ddaliwyd yn 2022 yn parhau i gael ei ddal ar 31 Mawrth 2025, sy'n golygu y gallwn gadarnhau sut mae allyriadau ar gyfer pob portffolio o gwmnïau wedi newid cyn ystyried effaith ailddyrannu cyfalaf o fewn y portffolio.

Tabl 8: Emissions intensity for commonly held equity funds

Is-gronfa	2022 WACI	Newid oherwydd cwmnïau	Newid oherwydd rheolwyr buddsoddi	2025 WACI
Twf Byd-eang PPC	80.6	(25.4)	(3.5)	51.7
Cyfleoedd y DU PPC	104.3	(19.7)	(30.6)	54.1
Cyfleoedd Byd-eang PPC	117.4	(16.2)	(22.1)	79.1
Marchnadoedd Datblygol PPC	238.3	(33.2)	(64.5)	140.6
Ecwiti Carbon Isel y Byd BlackRock	26.9	(5.2)	6.3	28.0

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hymans Robertson.

Dangosodd pob un o'r Is-gronfeydd ostyngiad mewn dwysedd allyriadau dros y tair blynedd hyd at 2025 wrth edrych ar gamau gweithredu'r cwmnïau a ddelir. Mae'r rhain yn newidiadau yr ydym am eu gweld, wrth i'r cwmnïau a ddelir fynd ati i leihau eu dwysedd allyriadau carbon eu hunain.

Mae penderfyniadau rheoli buddsoddiadau hefyd wedi cyfrannu at ostyngiad mewn dwysedd allyriadau a gofnodwyd ar draws ein His-gronfeydd. Un peth oedd wedi cyfrannu at newid oedd ymestyn ein Troshaen Datgarboneiddio ar draws Is-gronfa Cyfleoedd a Marchnadoedd Datblygol y DU. Dangosir hyn isod. Mae newidiadau eraill yn digwydd oherwydd bod y rheolwyr buddsoddi sylfaenol wedi dewis ailddyrannu cyfalaf i gwmnïau sydd â dwysedd carbon is.

ASTUDIAETH ACHOS:

mynd i'r afael ag allyriadau carbon o fewn ein His-gronfeydd ecwiti

O blith Is-gronfeydd Cyfunol PPC, mae'r Is-gronfeydd Cyfleoedd Byd-eang, Cyfleoedd y DU a Marchnadoedd Datblygol yn defnyddio 'troshaen datgarboneiddio', lle mae ein rheolwr (Russell) yn cadw'r ôl troed carbon a'r amlygiad i gronfeydd tanwydd ffosil o leiaf 25% yn is na'r meincnod, gan eithrio rhai cwmnïau glo hefyd.



Ôl troed carbon 25% yn is o gymharu hynny â'r meincnod



Cronfeydd tanwydd ffosil wrth gefn 25% yn is o gymharu hynny â'r meincnod



Eithriadau wedi'u targedu o gwmnïau cynhyrchu refeniw glo

Er mwyn deall dibyniaeth eang ein heconomi fyd-eang ar ynni tanwydd ffosil, mae'n bwysig ystyried allyriadau Cwmpas 3, yn enwedig yn y defnydd a wneir o gynnyrch cwmni yn is i lawr y gadwyn gyflenwi, gan nodi bod angen i newid ddigwydd ar draws pob agwedd ar yr economi. Fodd bynnag, mae mesur allyriadau ynddo'i hun yn her. Er bod adroddiadau cynyddol dda ar allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2, yn enwedig gan gwmnïau rhestredig, mae'n fwy heriol mesur data allyriadau Cwmpas 3, ac mae hi felly'n anos cael gafael ar y data hwnnw.

ASTUDIAETH ACHOS:

archwilio ein His-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy

Sefydlwyd ein His-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy yn 2023, gyda chyfres o gyfyngiadau ac amcanion sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd. Yn benodol, nid yw'r Gronfa yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n gysylltiedig ag echdynnu glo thermol na chwmnïau olew a nwy anghonfensiynol, e.e. y rhai sy'n manteisio ar dywod tar neu olew arctig. Mae gan y Gronfa nod hefyd o gyd-fynd yn gyfan gwbl â sero net erbyn 2040. Felly pam mae'r Gronfa yn dangos ôl troed carbon uwch na rhai o'n His-gronfeydd ecwiti byd-eang eraill?

Er ein bod wedi arwain yr hyn na chaiff y Gronfa fuddsoddi ynddo, mae ein rheolwyr sylfaenol yn rhydd i ddewis y cwmnïau hynny y maent yn credu y gallant gyfrannu at ganlyniadau hirdymor mwy cynaliadwy. Un o'r cwmnïau hyn yw ArcelorMittal (y gwneuthurwr dur), y mae ein dadansoddiad ohono yn dweud wrthym dro ar ôl tro fod ganddo allyriadau carbon uchel iawn. Ond nid yw allyriadau uchel yn golygu y dylem eithrio'r cwmni. Yn hytrach, mae'n dangos bod cyfle i gefnogi'r cwmni drwy gyfnod o newid hirdymor, yn enwedig gan ein bod yn disgwyl y bydd galw parhaus am ddur.

Mae ein rheolwyr buddsoddi wedi dweud wrthym bod ArcelorMittal yn ceisio newid y ffordd y mae'n gwneud dur, yn ogystal â buddsoddi'n helaeth mewn creu ei ffynonellau ynni adnewyddadwy ei hun. Dyma ddwy enghraifft yn unig o'r newidiadau sy'n digwydd yn y cwmni a pham rydym yn edrych y tu hwnt i niferoedd yn unig.

* Maes gweithredu:

Rydym yn cydnabod bod llawer o randdeiliaid yn canolbwyntio ar allyriadau carbon ac yn disgwyl gweld gostyngiad parhaus mewn allyriadau. Credwn ei bod yn bwysig deall pam mae newid yn digwydd ac egluro'r rhesymau yn well. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith monitro ac adrodd ar allyriadau carbon i egluro hyn yn well ac i sicrhau y gallwn ddal sefydliadau yn briodol atebol. Byddwn hefyd yn parhau i nodi enghreifftiau o arferion da y gallwn eu defnyddio i egluro ein safbwynt i randdeiliaid.

Ansawdd data

Un o'n prif ystyriaethau wrth gyfrifo dwysedd carbon, a metrigau eraill, yw'r data sydd ar gael. Mae hyn yn golygu ystyried a adroddwyd data allyriadau (h.y., a yw'r cyfrifiadau'n seiliedig ar ddata gwirioneddol), a lle'r amcangyfrifwyd data allyriadau, naill ai ar lefel cwmni neu ddosbarth asedau.

Caiff data ar asedau rhestredig eu hadrodd yn dda ar y cyfan, neu gellir rhoi amcangyfrif da ohonynt, felly mae ar gael at ddibenion cyfrifo. Mae'r un peth yn wir yn fras am farchnadoedd bondiau rhestredig, ac eithrio dyled sofran. Felly, rydym wedi cyfrifo metrigau allyriadau o fewn mandadau ecwiti rhestredig, incwm sefydlog ac aml-asedau. Rydym yn cyfeirio at y daliadau gwirioneddol o fewn portffolios sylfaenol yn seiliedig ar ddata a adroddwyd gan, neu a amcangyfrifwyd ar gyfer cwmnïau (fel y'u darparwyd gan MSCI), gydag ansawdd cyfartalog y data wedi'i nodi yn Nhabl 9.

Tabl 9: Ansawdd data allyriadau sylfaenol

31 Mawrth 2022				31 Mawrth 2025		
Dosbarth asedau	Adroddwyd	Amcangyfrif	Cyfanswm	Adroddwyd	Amcangyfrif	Cyfanswm
Ecwiti Rhestredig	82.4%	16.8%	99.2%	87.5%	8.2%	95.7%
Incwm Sefydlog	60.8%	14.9%	75.7%	36.8%	7.5%	44.3%

Ar gyfer incwm sefydlog, mae mandadau bondiau llywodraeth wedi'u heithrio.

Rydym yn nodi bod ansawdd data yn cynnig ffynhonnell arall o wallau wrth gydgasglu gwybodaeth ar draws gwahanol ddosbarthiadau asedau, a llunio sefyllfaoedd cyfun. Er enghraifft, lle bo ansawdd data yn uchel (95% er enghraifft), mae'n rhesymol tybio bod yr un allyriadau carbon i'w cael yn y 5% o ddaliadau lle mae'r data ar goll, heb i hynny amrywio'n ormodol ar y canlyniad gwirioneddol. Fodd bynnag, lle bo ansawdd y data yn sylweddol is, mae'r dybiaeth hon yn cyflwyno amrywio pellach. Mae ansawdd y data ar draws ein mandadau incwm sefydlog yn is gan ein bod wedi cynnwys mwy o fandadau yn ein dadansoddiad, ond rydym yn cydnabod bod data braidd yn brin.

* Maes gweithredu:

Mae ansawdd ac argaeledd data yn parhau i fod yn her barhaus, yn enwedig wrth i PPC ehangu ei buddsoddiadau ar draws marchnadoedd preifat a cheisio gwella ei dealltwriaeth o faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei buddsoddiadau. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheolwyr a phartneriaid eraill i wella cysondeb yn ein trefniadau casglu data, ac annog datgelu lle mae hyn yn fuddiol ac yn ymarferol.

CYD-FYND Â'R TRAWSNEWID

Mae rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn ymwneud yn bennaf â'r broses o newid, ac rydym yn gwybod bod hyn yn cymryd amser. Rydym yn cofnodi hyn drwy'r gwaith ymgysylltu a wneir gan Robeco ar ein rhan, yn enwedig drwy'r thema 'Cyflymu tuag at Gytundeb Paris'. Mae hyn yn canolbwyntio ar y cwmnïau hynny sydd â'r risg fwyaf yn sgil trawsnewid i ynni adnewyddadwy a'r rhai sy'n llusgo y tu ôl i'w cymheiriaid wrth roi cynlluniau trawsnewid cadarn ar waith.

Mae cyd-fynd â'r trawsnewid yn elfen o'n fframwaith hinsawdd ac yn fater a ddylai fod yn rhan annatod o ystyriaethau hinsawdd y Cronfeydd wrth asesu cynnydd yn erbyn sero net neu amcanion hinsawdd eraill. Mae ein dull gweithredu yn y maes hwn yn parhau i ddatblygu y tu hwnt i asesu'r nodau a'r nodau hinsawdd sydd ar gael yn unig.

Deall ein hamlygiad i sectorau o bwys ac uchel eu heffaith

Mae gan rai sectorau fwy o amlygiad i risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd nag eraill. Rydym yn nodi ein hamlygiad i sectorau o bwys – y rhai sydd â'r effaith fwyaf posibl ar ganlyniadau hinsawdd, megis ynni, cyfleustodau a deunyddiau. Rydym hefyd yn tynnu sylw at sectorau o bwys, uchel eu heffaith, lle mae risgiau a chyfleoedd trawsnewid yn arbennig o arwyddocaol. Mae deall ein hamlygiad i'r sectorau hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ein hymdrechion stiwardiaeth a rheoli risg lle gallant gael yr effaith fwyaf.

Ffigur 10: Amlygiad i gwmnïau mewn sectorau uchel eu heffaith ar draws portffolios ecwiti

By emissions Scope 1 and 2



By allocation



Ar draws ein portffolio ecwiti cyfunol, mae 58% o asedau yn rhan o sectorau uchel eu heffaith; mae hyn i gyfrif am 83% o'r allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 sy'n gysylltiedig â'n buddsoddiadau ecwiti. Mae amlygiad anghymesur mewn cyfleustodau (2% o amlygiad, 12% o allyriadau), ynni (3% o amlygiad, 15% o allyriadau) ac yn enwedig deunyddiau (4% o amlygiad, 37% o allyriadau) yn awgrymu bod y rhain yn feysydd lle y dylem roi ein hadnoddau a'n hymdrechion i bwysu am newid.

Asesu cyd-fynd â'r trawsnewid

Rydym yn defnyddio'r Fframwaith Buddsoddi Sero Net i werthuso cynlluniau a llwybrau trawsnewid. O fewn y fframwaith, mae cwmnïau'n cael eu dosbarthu fel rhai sydd 'wedi ymrwymo' os ydynt wedi gosod targedau ac 'wedi cynllunio' os ydynt yn eu datblygu. Mae'r dadansoddiad hwn yn ein helpu i ddeall pa mor barod yw ein buddsoddiadau ar gyfer y trawsnewid a ble y gallai fod angen gwaith ymgysylltu pellach.

Tabl 10: Fframwaith Buddsoddi Sero Net

Heb fod yn cyd-fynd:	Asedau heb ymrwymiad i ddatgarboneiddio mewn modd sy'n gyson â chyflawni sero net byd-eang.
Wedi ymrwymo i gyd-fynd:	Asedau sydd â nod datgarboneiddio hirdymor sy'n gyson â chyflawni sero net byd-eang erbyn 2050.
Cyd-fynd â llwybr sero net:	Asedau â pherfformiad allyriadau nad yw'n cyfateb i lwybr sero net cyd-destunol perthnasol. Fodd bynnag, yn bwysig ddigon, mae ganddynt dargedau seiliedig ar wyddoniaeth a chynllun datgarboneiddio ac felly maent yn barod i drawsnewid.
Cyd-fynd â llwybr sero net:	Asedau sydd â thargedau seiliedig ar wyddoniaeth, cynllun datgarboneiddio a dwysedd allyriadau neu absoliwt cyfredol sydd o leiaf yn cyfateb i lwybr sero net perthnasol. Mae'r categori hwn yn dangos yn fras bod risg trawsnewid yn cael ei rheoli ar lefel asedau.
Cyflawni sero net:	Asedau sy'n bodloni'r holl feini prawf perthnasol ac sydd â pherfformiad allyriadau sero net y gellir disgwyl iddo barhau.

This matters for asset owners, as it implies the need for change. While some organisations may need relatively Mae hyn yn bwysig i berchnogion asedau, gan ei fod yn awgrymu'r angen am newid. Er nad oes angen llawer o newid ar rai sefydliadau, mae eraill yn wynebu mwy o heriau i sicrhau y gallant ddarparu nwyddau a gwasanaethau gyda bach iawn neu ddim allyriadau carbon, ac ar gyfer yr allyriadau gweddilliol hynny, bod trefniadau gwrthbwysu priodol ar waith. Er y bydd yr amgylchedd yn parhau i ymateb i lefel wirioneddol yr allyriadau, bydd cyflymder y newid yn ddibynnol ar lunwyr polisi, newid technolegol, pwysau o du cymdeithas a buddiannau busnes.

Mae Ffigur 12 yn dangos manylion ein daliadau ecwiti cyfansawdd yn erbyn y fframwaith buddsoddi sero net. Mae cwmnïau'n cael eu grwpio yn seiliedig ar eu pwysoliad yn y portffolio (ac felly i ba raddau yr ydym yn dal cwmnïau nad ydynt yn cyd-fynd â'r trawsnewid) a'u hallyriadau. Mae'r asesiad olaf yn bwysicach wrth asesu i ba raddau y mae ffynonellau allyriadau carbon yn cael sylw yn weithredol.

Ffigur 2: Aliniad dyraniadau ecwiti, sectorau uchel eu heffaith yn unig

Yn ôl allyriadau (cwmpas 1 a 2)



Yn ôl dyraniad



Wedi alinio Yn alinio Wedi ymrwymo Heb fod yn alinio


Er bod amlygiad i sectorau uchel eu heffaith ar draws ein portffolios ecwiti cyfunol i gyfrif am 58% o asedau yn ôl gwerth, neu 83% wrth eu pwysoli yn ôl allyriadau, mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud: dim ond traean o'r allyriadau sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd wedi ymrwymo i lwybr sero net neu well.

Asesu cynnydd targedau seiliedig ar wyddoniaeth

Er bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar gynnydd tuag at gyd-fynd â'r trawsnewid, rydym yn parhau i gredu ei bod hi'n werth gosod targedau priodol, gan nodi hefyd ei bod yn synhwyrol dangos newidiadau dros y cyfnod ers ein dadansoddiad blaenorol. Felly, rydym yn asesu i ba raddau y mae cwmnïau yn ein portffolio wedi ymrwmo i dargedau seiliedig ar wyddoniaeth, neu wedi'u cymeradwyo, drwy'r fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTi).

Partneriaeth yw'r SBTi sy'n canolbwyntio ar roi targedau i gwmnïau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ac wedi'u diffinio'n glir i leihau allyriadau, yn unol â nodau Cytundeb Paris. Mae'r SBTi yn dilyn proses cam wrth gam ar gyfer gosod targedau allyriadau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth, sy'n cyd-fynd â'r broses o drawsnewid i economi sero net. Ar gyfer portffolios ecwiti cyfunol y Cronfeydd, rydym wedi asesu i ba raddau y mae cwmnïau'n rhoi cynlluniau o'r fath ar waith ac a yw'r cynlluniau hynny wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan yr SBTi.

Ffigur 3: Cwmnïau sy'n mynd i'r afael â thrawsnewid drwy'r SBTi



Ar draws yr holl ddaliadau ecwiti, mae tua 55% (2022: 40%) o gwmnïau yn ôl eu gwerth wedi ymrwmo i dargedau priodol gan yr SBTi neu wedi'u cymeradwyo. Bu newid amlwg tuag at gwmnïau sydd â thargedau cymeradwy, gan droi ymrwymïadau'n gynlluniau pendant. Er bod hyn yn gyson ar y cyfan ar draws y rhan fwyaf o'r cronfeydd ecwiti a ddangosir uchod, yr eithriad amlwg i hyn yw'r Is-gronfa Marchnadoedd Datblygol o hyd.

✳ Maes gweithredu:

Mae cefnogi cwmnïau drwy'r broses o newid yn faes lle gall PPC helpu (yn enwedig mewn cydweithrediad ag eraill). Bydd PPC yn gweithio gyda'i phartneriaid i sicrhau bod ffocws priodol ar gwmnïau uchel eu heffaith a bod ei stiwardiaeth yn ddigon cadarn wrth ddal i gyfrif sefydliadau sydd angen trawsnewid.

AMLYGIADAU SY’N YMWNEUD Â’R HINSAWDD

Mae PPC yn cydnabod bod y cwmnïau a’r asedau yr ydym yn buddsoddi ynddynt yn diwallu anghenion amrywiol ein heconomi fyd-eang a’i defnyddwyr. Fodd bynnag, rydym hefyd am sicrhau y gellir cyfeirio ein buddsoddiadau at asedau sy’n cyfrannu at ddyfodol hirdymor, cynaliadwy. Mae’n amlwg bod yr asesiad hwn yn oddrychol, yn enwedig wrth edrych ar wahanol amserlenni, ac rydym yn ystyried hyn wrth ddatblygu polisi. Mae angen i ni hefyd ddeall sut mae ein hasedau’n cael eu buddsoddi. Mae ein fframwaith hinsawdd yn canolbwyntio ar ddau faes:

- **Amlygiad i gwmnïau sydd â chronfeydd tanwydd ffosil wrth gefn.** Rydym yn dadansoddi ein hamlygiad i gwmnïau sydd â chysylltiadau uniongyrchol â thanwydd ffosil. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau sydd â chronfeydd glo thermol wrth gefn; cronfeydd tanwydd ffosil wrth gefn (gan gynnwys olew a nwy); y rhai sy’n ymwneud ag echdynnu tanwydd ffosil, cynhyrchu neu gynhyrchu pŵer o danwydd ffosil; a’r rhai sydd â chysylltiadau busnes â thanwydd ffosil. Gall lleihau amlygiad i’r cwmnïau hyn leihau’r risg bosibl o adael asedau ar ôl wrth i’r economi symud i ffwrdd oddi wrth danwydd ffosil.
- **Amlygiad i gwmnïau sy’n cael reffeniw o atebion hinsawdd.** Rydym hefyd yn ystyried ein hamlygiad i gwmnïau sy’n creu reffeniw o atebion hinsawdd, fel y’u diffinnir gan dactonomeg yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae’r rhain yn cynnwys cwmnïau sy’n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni, dŵr cynaliadwy, adeiladau gwyrdd a themâu effaith amgylcheddol eraill. Mae cynyddu ein dyraniad i atebion hinsawdd yn cefnogi’r broses o drawsnewid i economi carbon isel a gall ddarparu cyfleoedd buddsoddi newydd.

Amlygiadau i danwydd ffosil

Mae parhau i fanteisio ar danwydd ffosil yn creu allyriadau carbon parhaus. Felly, gallai ymdrechion i ddatgarboneiddio gweithgareddau (yn enwedig cynhyrchion a gwasanaethau sy’n rhoi dibyniaeth fawr ar danwydd ffosil fel mewnbwn) arwain at adael asedau ar ôl, h.y. gostwng gwerth cwmnïau gan nad ydynt yn gallu manteisio ar adnodd a gafodd werth cadarnhaol o’r blaen.

Er y bydd amrywiaeth o ddiwydiannau yn destun y risg hon, mae’n rhesymol canolbwyntio ar y rhai sydd ag amlygiad i danwydd ffosil, oherwydd gallent wynebu pwysau dirfodol. Ond sut rydym yn diffinio cwmni tanwydd ffosil?

Ar gyfer ein dadansoddiad, rydym wedi ystyried tri metrig gwahanol i ddangos maint yr amlygiad o fewn Cronfeydd Cymru. Rydym yn canolbwyntio’n bennaf ar amlygiad i gronfeydd wrth gefn, ond rydym wedi ehangu hyn i ystyried cwmnïau sy’n ymwneud mewn unrhyw ffordd â thanwydd ffosil, yn unol â’r canlynol:

- Cwmnïau sydd â chronfeydd glo thermol wrth gefn
 - Cwmnïau sydd â chronfeydd tanwydd ffosil wrth gefn (gan gynnwys yr uchod)
 - Cwmnïau sydd â chyswllt diwydiant â thanwydd ffosil (glo thermol, olew a nwy), gan gynnwys perchnogaeth ar gronfeydd wrth gefn, reffeniw cysylltiedig a chynhyrchu pŵer
- Y mesur olaf hwn yw’r asesiad ehangaf o gwmnïau y mae elfen o’u busnes yn uniongyrchol gysylltiedig â thanwydd ffosil - e.e. yng nghadwyn gyflenwi cwmnïau tanwydd ffosil. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dweud wrthym arwyddocâd yr ymwneud hwnnw ar sail y reffeniw a gynhyrchir, sef mater y byddwn yn ymchwilio iddo ac yn adrodd arno ar wahân.

Tabl 11: Amlygiad i danwydd ffosil o fewn amlygiadau ecwiti rhestredig

Metrig	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2025
Cwmnïau sydd â chronfeydd glo thermol wrth gefn	1.7%	0.9%
Cwmnïau sydd â chronfeydd tanwydd ffosil wrth gefn	5.6%	3.4%
Cwmnïau sy’n ymwneud â thanwydd ffosil	10.5%	8.8%

Tabl 12: Amlygiad i danwydd ffosil o fewn cronfeydd ecwiti unigol ar 31 Mawrth 2025 (2022)

Is-gronfa	Cronfeydd glo thermol wrth gefn	Cronfeydd tanwydd ffosil wrth gefn	Ymwneud â thanwydd ffosil
Twf Byd-eang PPC	0.3% (0.0%)	1.7% (3.7%)	7.0% (8.7%)
Cyfleoedd y DU PPC	1.4% (3.7%)	9.3% (13.3%)	19.5% (14.0%)
Cyfleoedd Byd-eang PPC	0.8% (2.5%)	4.4% (6.7%)	8.8% (9.6%)
Marchnadoedd Datblygol PPC	1.8% (4.1%)	4.5% (10.9%)	8.3% (12.8%)
Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy PPC	1.0% (-)	1.2% (-)	5.8% (-)
Ecwiti Carbon Isel y Byd BlackRock	0.1% (0.3%)	0.8% (0.6%)	5.5% (3.5%)

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hymans Robertson.

Mae amlygiad i gwmnïau sy’n ymwneud â thanwydd ffosil wedi gostwng yn gyffredinol dros y cyfnod ar draws gwahanol Is-gronfeydd Ecwiti PPC. Mae gan Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy PPC a Chronfa Ecwiti Carbon Isel y Byd BlackRock eithriadau penodol ynghylch rhai cwmnïau tanwydd ffosil, sy’n cael eu llywio gan drothwyon refeniw. Lle dangosir amlygiad ar gyfer y cronfeydd hyn, mae’n ymwneud â chwmnïau sy’n disgyn o dan y trothwy refeniw, h.y. lle mae gweithgarwch tanwydd ffosil yn elfen fach o’r busnes.

Ystyriwyd hefyd amlygiad o fewn mandadau incwm sefydlog, a ddangosir isod.

Tabl 13: Amlygiad i danwydd ffosil o fewn amlygiadau incwm sefydlog

Metrig	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2025
Cwmnïau sydd â chronfeydd glo thermol wrth gefn	0.9%	0.6%
Cwmnïau sydd â chronfeydd tanwydd ffosil wrth gefn	2.5%	2.3%
Cwmnïau sy’n ymwneud â thanwydd ffosil	4.9%	7.1%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hymans Robertson.

Gellir gweld patrwm tebyg dros y cyfnod o dair blynedd, gan fod amlygiad i gwmnïau sy’n ymwneud â thanwydd ffosil wedi gostwng ychydig.


✳ Maes gweithredu:

Mae buddsoddi mewn cwmnïau sy’n ymwneud ag echdynnu tanwydd ffosil wedi bod yn faes trafodaeth barhaus ar draws PPC. Rydym eisoes wedi cyflwyno eithriadau yn ein dau fandad cynaliadwy i gyfyngu ar fuddsoddiad mewn cwmnïau sy’n echdynnu tanwydd ffosil, ac rydym wedi bod yn gweithio yn ystod 2024/25 i ystyried a ellir ymestyn y cyfyngiadau hyn ar draws PPC yn ei chyfanrwydd. Rydym yn disgwyl cwblhau’r prosiect hwn yn gynnar yn 2026.

Atebion hinsawdd

Mae angen buddsoddiad cyfalaf yn yr hyn y gellir ei alw'n fras yn 'atebion hinsawdd'. Gall hyn gipio amrywiaeth o gyfleoedd buddsoddi mewn meysydd gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i ynni adnewyddadwy, rheoli adnoddau, coedwigaeth, amaethyddiaeth a thechnoleg. O fewn y fframwaith hinsawdd, ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar sefydliadau sy'n bodloni un o'r chwe amcan amgylcheddol a nodir yn nhacsonomeg yr UE.


Ffigur 4: Elfennau Tacsonomeg yr UE



Ar draws ein portffolio ecwiti cyfunol, rydym yn asesu i ba raddau y mae asedau Cronfeydd Cymru yn ariannu atebion hinsawdd. Rydym yn ystyried buddsoddiadau yn y chwe thema effaith amgylcheddol, sef ynni amgen, effeithlonrwydd ynni, adeiladu gwyrdd, atal llygredd, dŵr cynaliadwy ac amaethyddiaeth gynaliadwy. Nid yw pob cwmni yn canolbwyntio'n llwyr ar weithgareddau o fewn y themâu hyn; felly, gallwn ystyried 'ffocws' cymharol pob cwmni drwy werthuso'r refeniw sy'n deillio o weithgarwch sy'n seiliedig ar atebion.

Ychydig o newid sydd wedi bod ar draws ein portffolio ecwiti cyfunol dros y tair blynedd diwethaf, gydag ychydig dros 27% o'r cwmnïau yr ydym yn buddsoddi ynddynt yn cyfrannu at atebion. Nid yw lansio'r Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy wedi effeithio'n sylweddol ar y ffordd y mae amlygiad i atebion hinsawdd wedi'i gofnodi, ond mae wedi bod yn newid amlwg dros y cyfnod.

Ffigur 5: Refeniw cwmnïau o fewn portffolios ecwiti y gellir ei briodoli i atebion amgylcheddol



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hymans Robertson

✱ Maes gweithredu:

Er bod ein fframwaith yn cofnodi atebion hinsawdd, mae gwaith yn parhau i ddiffinio a nodi'n glir gwmnïau sy'n cyfrannu at atebion hinsawdd. Rydym yn cydnabod y cymhlethdodau o ran diffiniadau a'r heriau wrth sicrhau bod data ar gael. Rydym am ddeall yr amlygiad hwn yn well ar draws ein sylfaen asedau gyfan.

EIN HAMLYGIADAU MARCHNADOEDD PREIFAT

Mae PPC yn parhau i ehangu ei dyraniadau marchnadoedd preifat, gan symud i ffwrdd oddi wrth asedau rhestredig, mwy traddodiadol, gydag amlygiad mwy uniongyrchol i asedau go iawn sy'n gallu mynd i'r afael â risgiau hinsawdd a bioamrywiaeth (e.e. ynni adnewyddadwy, coedwigaeth, seilwaith cynaliadwy). Rydym yn disgwyl i'n dyraniadau lleol ac effaith barhau i dyfu – sef blaenoriaeth allweddol nid yn unig i'r Gronfa Gyfunol ond hefyd o ystyried disgwyliadau 'Addas ar gyfer y Dyfodol' y llywodraeth.

Gyda'i gilydd, dros y cyfnod adrodd, buddsoddwyd ein cronfeydd partner mewn dros 200 o gronfeydd marchnadoedd preifat ar draws gwahanol ddosbarthiadau asedau. Am y rheswm hwn, rydym wedi dewis ein cwrdd marchnadoedd preifat yn ofalus, gan ganolbwyntio ar yr asedau hynny a ddelir gan y Gronfa Gyfunol. Mae'r tabl isod yn nodi rhai o nodweddion hinsawdd lefel uchel ein rhaglen marchnadoedd preifat, sy'n cwrddu meysydd yn ein fframwaith hinsawdd.

Tabl 14: Nodweddion hinsawdd ein strategaethau marchnadoedd preifat

Dosbarth asedau	Atebion hinsawdd	Buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â thanwydd ffosil	Adrodd ar allyriadau carbon
Dyled breifat	Heb eu targedu'n benodol	Dim cyfyngiad penodol	Na
Ecwiti preifat	Heb eu targedu'n benodol	Dim cyfyngiad penodol	Ie
Seilwaith	Wedi'u targedu'n benodol	Gellid eu cynnwys, ond heb gyfyngiad penodol	Ie
Eiddo tirol	Heb eu disgwyl	Heb eu disgwyl	Amh.

Mae nodweddion cysylltiedig â'r hinsawdd portffolios marchnadoedd preifat yn gyffredinol yn fwy heriol i'w mesur na phortffolios marchnadoedd cyhoeddus, oherwydd ein bod yn dibynnu ar ein rheolwyr - yn hytrach na ffynonellau data ehangach - i gasglu data o gwmnïau buddsoddi sylfaenol, rheolwyr ac asedau. Rydym wedi gweld cynnydd wrth gyfuno ac adrodd ar ddata hinsawdd gan ein rheolwyr, ond mae hwn yn faes yr ydym yn gobeithio ei wella.

Rydym yn amlinellu pob un o'n rhaglenni marchnadoedd preifat isod, gan ganolbwyntio'n arbennig ar nodweddion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar gyfer pob un.

*** Maes gweithredu:**

Oherwydd bod ein rhaglen fuddsoddi yn newydd, mae'n golygu bod adrodd, yn enwedig ar faterion hinsawdd, yn parhau i ddatblygu. Yn ystod 2026, byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheolwyr i gwblhau fframwaith priodol ar gyfer adrodd ar yr hinsawdd, gan sicrhau ein bod yn cael gwybodaeth sy'n ddefnyddiol ar gyfer penderfyniadau.

Seilwaith

Ar lefel y Gronfa Gyfunol, mae PPC wedi darparu'r gallu i fuddsoddi mewn cyfryngau seilwaith penagored a chaeedig. Mae hyn yn creu platfform eang ar gyfer buddsoddiadau'r Gronfa sy'n cynnwys asedau sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r trawsnewid i ynni adnewyddadwy ac asedau a leolir yng Nghymru. Rydym yn amlinellu elfennau ein rhaglen seilwaith isod.

Rheolwr	Trosolwg
GCM	Mae ein rhaglen seilwaith gaeedig yn cael ei rheoli gan GCM Grosvenor. O fewn y strategaeth darged, mae tueddiad tuag at ynni adnewyddadwy ac asedau trawsnewid i ynni adnewyddadwy, wrth geisio eithrio asedau sy'n gysylltiedig ag olew siâl, tywod tar a glo thermol.
Octopus	Mae strategaeth Octopus yn buddsoddi mewn seilwaith ynni adnewyddadwy. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â senario 1.5/2°C, gyda'r nod o gynhyrchu 100% o reffeniw o ffynonellau cynaliadwy. Mae'r adran eisoes yn buddsoddi mewn nifer o gyfleoedd yng Nghymru sy'n cefnogi trawsnewid i ynni adnewyddadwy, gan gynnwys gwefru cerbydau trydan, pŷmpiau gwres o'r ddaear, ynni gwynt ar y tir, gwynt arnofiol, solar a chysylltedd grid. Mae prosiectau hefyd wedi'u cynllunio i ddatblygu safleoedd ailgylchu gwres a hydrogen gwyrdd.
IFM	Mae gan strategaeth IFM sawl amlygiad sy'n gysylltiedig â thanwydd ffosil, gan gynnwys seilwaith piblinellau nwy naturiol hylifedig ac olew a nwy. Fodd bynnag, mae'r portffolio hefyd yn buddsoddi mewn asedau sy'n ceisio cyfrannu at y trawsnewid i sero net, gan gynnwys cefnogi cwmnïau portffolio ynghylch y canlynol: tanwydd hedfan cynaliadwy, biomethan, ynni gwynt a solar, technolegau troi gwastraff yn ynni a throsi sgiliau (wrth symud y gweithlu i ffwrdd oddi wrth y sector tanwydd ffosil). Fel y gellid ei ddisgwyl gan gronfa seilwaith byd-eang, mae'r rhan fwyaf o'r portffolio wedi'i ganoli mewn asedau yn yr Unol Daleithiau ac Ewrop, heb unrhyw fuddsoddiadau yng Nghymru ar hyn o bryd.
CBRE	Mae'r portffolio a reolir gan CBRE yn buddsoddi mewn sawl ased sy'n cefnogi trawsnewid i ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy, dosbarthu trydan, gwefru cerbydau trydan a seilwaith digidol. Mae'r rheolwr bellach yn defnyddio Climate X i dynnu sylw at amlygiad posibl i risg hinsawdd ffisegol o fewn eu hasedau eiddo tirol, gan edrych ar bwyntiau data fel: llifogydd arfordirol, llifogydd dŵr arwyneb, tanau gwyllt, seiclonau trofannol a sychderau. Mae'r portffolio wedi'i ganoli mewn asedau yn yr Unol Daleithiau ac Ewrop.

Ar draws ein buddsoddiadau seilwaith mae amrywiol fuddsoddiadau lleol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, yn enwedig yn y sector ynni adnewyddadwy, fel y dangosir yn yr astudiaethau achos isod.

ASTUDIAETH ACHOS:

Buddsoddiad lleol mewn atebion hinsawdd

Rydym yn disgwyl i'n dyraniadau lleol ac effaith barhau i dyfu – fel blaenoriaeth allweddol nid yn unig i'r Gronfa ond hefyd o ystyried disgwyliadau 'Addas ar gyfer y Dyfodol' y llywodraeth. Rydym yn annog buddsoddiadau yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi'r broses o drawsnewid i economi carbon is, gan barhau i gefnogi prosiectau fel:

1. **O fewn portffolio GCM**, mae gan **Quinbrook** amlygiad i seilwaith ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae prosiect Aber-wysg yng Nghasnewydd ar safle dau bwerdy glo wedi'u datgomisiynu, a fydd yn cael eu newid yn barc ynni cynaliadwy, gyda batris i storio pŵer dros ben i'w gyflenwi i'r grid yn ystod y galw brig. Mae'r ail brosiect, yn Rasa, yn cefnogi sefydlogrwydd grid o dan gynllun Stability Pathfinder y National Grid, drwy gyddwysyddion cydamserol, sy'n sefydlogi ac yn rheoleiddio'r pŵer a gynhyrchir gan ynni adnewyddadwy.
2. **Portffolio ynni adnewyddadwy Capital Dynamics**. Mae PPC hefyd wedi buddsoddi mewn portffolio o brosiectau ynni gwynt ar y tir yng Nghymru. Bydd y buddsoddiad yn cefnogi gwelliannau i'r seilwaith grid presennol yng Nghymru a disgwylir iddo gynhyrchu digon o drydan i wrthbwyso mwy na 2.6m tonnelli o allyriadau CO₂ y flwyddyn.

Mae ein rheolwyr yn parhau i ddatblygu eu hadroddiadau ar fetrigau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan ein galluogi i ddeall y camau a gymerwyd yn well. O ystyried nad yw data cyson ar gael eto ar draws pob strategaeth, rydym wedi dewis peidio â chyflwyno'r wybodaeth hon yn yr adroddiad hwn ond byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheolwyr i ddatrys yr anghysondebau hyn.

Ecwiti preifat

Lansiwyd ein rhaglen ecwiti preifat yn 2024 ac mae dau gyfnod ar hyn o bryd sy'n cael eu rheoli gan Schroders. Nid ydym wedi cytuno ar feini prawf hinsawdd penodol ar gyfer y rhaglen hon, sy'n canolbwyntio ar fuddsoddi mewn technoleg, gwasanaethau busnes, gofal iechyd a chwmnïau defnyddwyr. Disgwylir amlygiad cyfyngedig mewn cwmnïau diwydiannol. Mae rhai o'r asedau sylfaenol yn gefnogol i themâu datgarboneiddio, gan gynnwys buddsoddi mewn darparwr gwasanaeth ffotofoltäig.

Credyd preifat

Nid oes unrhyw amcan hinsawdd penodol a nodwyd yn cael ei gymhwyso ar draws y rhaglen, er bod disgwyliad ymhlyg y dylai'r gwaith o greu portffolio adlewyrchu materion cynaliadwyedd a hinsawdd. Mae gan rai o'r cronfeydd sylfaenol nodweddion cynaliadwyedd penodol; er enghraifft, mae un o'r cronfeydd yn gronfa Erthygl 9 sy'n buddsoddi mewn darparwyr atebion hinsawdd, gydag ymrwymiad i gefnogi'r broses trawsnewid teg. Mae'r gronfa yn ceisio cyfrannu at yr economi 'CLIC' – cylchol, darbodus, cynhwysol a glân – ac mae'n targedu themâu gan gynnwys ynni adnewyddadwy, trawsnewid i ynni adnewyddadwy, storio a microgridiau, effeithlonrwydd adnoddau, digidoleiddio a throi gwastraff yn werth.

Eiddo tirol

Rydym yn disgwyl i'r rhaglen hon gael ei lansio yn ystod 2025/26, felly rydym yn disgwyl mwy o ddiweddariadau yn ein cylch adrodd nesaf. Bydd buddsoddiadau yn cael eu gwneud drwy dri chategori eang: byd-eang (a reolir gan CBRE), y DU a lleol/effaith (y ddau gyntaf yn cael eu rheoli gan Schroders). Er nad oes amcan hinsawdd cyffredinol wedi'i gymhwyso i'r rhaglen gyfan, mae 'Datgarboneiddio'r DU' yn un o dair thema sydd wedi'u targedu'n benodol yn yr adran leol/effaith.

STIWARDIAETH

Mae stiwardiaeth yn adlewyrchu'r broses y mae perchnogion asedau yn ei defnyddio i arfer hawliau a chyfrifoldebau perchnogaeth i reoli risg a chynnal neu wella gwerth. Ar draws Cronfeydd Cymru, mae arfer stiwardiaeth fel arfer yn cael ei ddirprwyo i drydydd partïon; fodd bynnag, mae'r Cronfeydd a PPC yn llunio polisiau a disgwyliadau'r rhai sy'n ymgymryd â stiwardiaeth ar eu rhan. Rydym yn adrodd yn flynyddol ar weithgarwch stiwardiaeth fel y mae'n ymwneud â'r hinsawdd yn ein hadroddiad côd stiwardiaeth blynyddol ond rydym wedi tynnu sylw at rai o'n gweithgareddau isod.

Rydym wedi ehangu cwmpas ein polisi pleidleisio

Un o brif argymhellion adroddiad 2023 oedd ystyried sut rydym yn llunio ein hymagwedd at stiwardiaeth, yn enwedig o ran ein hamlygiadau ecwiti goddefol. Mae cyflwyno ein cronfa oddefol newydd wedi caniatáu inni ymestyn ein polisi pleidleisio dros £4bn ychwanegol o asedau ecwiti. Mae hyn yn golygu bod dros 85% o asedau ecwiti (hanner holl asedau Cronfa Bensiwn CPLIL Cymru) bellach yn destun pleidlais o dan un polisi, gan ein galluogi i gyflwyno llais cynyddol gyson.

* Maes gweithredu:

Bydd PPC yn ceisio cynyddu cyfran yr asedau ecwiti sy'n dod yn uniongyrchol o dan bolisi pleidleisio PPC i 100%.

Ein rhestr ffocws hinsawdd

Un o argymhellion adroddiad 2023 oedd y nod o greu pwyntiau ffocws penodol ar gyfer ein hymdrechion stiwardiaeth. Rydym wedi datblygu hyn drwy greu ein rhestr ffocws hinsawdd sy'n cynnwys amrywiaeth o gwmnïau y gellir craffu arnynt yn haws o safbwynt hinsawdd. Ar hyn o bryd mae gennym 44 o gwmnïau ar ein rhestr ffocws, sy'n cynrychioli dros £1bn o asedau, ac rydym yn parhau i fireinio ein proses graffu barhaus.

ASTUDIAETH ACHOS:

Cynyddu pryderon am BP

Mae BP yn un o'r cwmnïau ar ein rhestr ffocws hinsawdd ac yn gwmni yr ydym wedi cymryd rôl stiwardiaeth fwy gweithredol ynddo.

Cefnogodd PPC lythyr buddsoddwr at gadeirydd BP, a oedd yn amlinellu pryderon am ymrwymïadau hinsawdd y cwmni (gan gynnwys gwanhau targedau lleihau hydrocarbon) ac yn gofyn am fwy o dryloywder ynghylch cynlluniau trawsnewid BP - megis sut mae cyllidebau allyriadau yn cael eu hystyried wrth ddatblygu prosiectau newydd (gan gynnwys mewn tanwydd ffosil).


Cawsom ein siomi gan ymateb BP i hyn, wrth i'r cwmni fethu â mynd i'r afael â phryderon ynghylch diffyg 'Lleisio Barn ar yr Hinsawdd' a chynnig unrhyw beth newydd ar wariant cyfalaf (capex) a gwynnwch trawsnewid. Mae pryderon yn parhau i gynyddu ynglŷn â chamu'n ôl ar ymrwymïadau hinsawdd (gan gynnwys targedau interim ar gyfer trawsnewid trefnus).

Gan gynyddu'r pryderon hyn, pleidleisiodd Robeco, ar ein rhan, yn erbyn cadeirydd BP a chadeirydd y pwyllgor diogelwch a chynaliadwyedd. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gwrthwynebodd bron i chwarter y cyfranddalwyr, gan gynnwys PPC, ailbenodi'r cadeirydd (Helge Lunde), sef y tro cyntaf mewn 10 mlynedd i nifer mor fawr o gyfranddalwyr wneud hynny.

Ymgysylltu

Mae PPC yn elwa ar sawl darparwr gwasanaeth o ran ymgysylltu ym maes hinsawdd a natur, gan gynnwys: Robeco (ein darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu); Russell a’n rheolwyr buddsoddi sylfaenol; a LAPFF. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae Robeco wedi ymgysylltu â chwmnïau ar draws nifer o themâu sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd, fel y nodir isod.

Ffigur 6: Ymrwymïadau hinsawdd dros y blynyddoedd diwethaf



Mae Robeco yn parhau i gefnogi nodau PPC yn weithredol ar draws amrywiaeth o themâu ymgysylltu sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd a natur, sy’n parhau i ehangu. Er bod y rhan fwyaf o’r gwaith ymgysylltu yn parhau, mae’r cynnydd yn dal i fod yn gadarnhaol ar y cyfan, ac rydym yn gefnogol i ddull cyfannol Robeco o ymgysylltu. Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn croesawu ehangu ymgysylltiadau polisi hinsawdd Robeco, sef thema ymgysylltu uwch sy’n targedu cwmnïau sy’n agored iawn i risgiau datgoedwigo ac ymgysylltiadau ynghylch risg hinsawdd ffisegol.

Eiriolaeth hinsawdd

Mae gallu PPC i eirioli’n uniongyrchol dros newid polisi yn fwy cyfyngedig o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, ond rydym yn barod i gefnogi cynigion a galwadau i’r llywodraeth. Fe wnaethom gefnogi Datganiad Buddsoddwyr Byd-eang 2024 i Lywodraethau ar yr Argyfwng Hinsawdd; roeddem o’r farn y byddai ein cefnogaeth yn helpu i annog y gwaith o ddatblygu amgylchedd polisi sefydlog sy’n annog buddsoddi sy’n canolbwyntio ar sicrhau trawsnewid cyflym ond trefnus i economi carbon isel. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ystyried hinsawdd a natur gyda’i gilydd, yr angen am ymagwedd ofalus wrth fynd i’r afael â gwahaniaethau sectorol, a’r gwahaniaethau rhwng economïau datblygedig ac economïau datblygol a rhai sy’n dod i’r amlwg.

Hefyd rydym yn cefnogi ymagwedd ecosystem ehangach Robeco at stiwardiaeth hinsawdd a natur, sy’n cynnwys sawl rhanddeiliad gan gynnwys gweithwyr, cymunedau, academyddion a llunwyr polisi. Fel rhan o hyn mae Robeco wedi ymgysylltu â llywodraethau Brasil ac Indonesia ynghylch datgoedwigo a cholli bioamrywiaeth, gan gysylltu hyn ag ymrwymïadau o dan Gytundeb Paris.

GEIRFA

Cyferwerth â charbon-deuocsid (CO₂e): metrig a ddefnyddir i ddangos effaith amrywiol nwyon tŷ gwydr mewn ffordd safonol, drwy gyflwyno allyriadau yn nhermau swm cyfanredol o CO₂ a fyddai'n creu'r un lefel o gynhesu byd-eang.

Dwysedd Carbon: mesur o faint o gramau o garbon deuocsid sy'n cael eu rhyddhau i gynhyrchu awr cilowat o drydan fesul uned o weithgaredd, fel cynhyrchu cynnyrch.

Atebion hinsawdd: asedau, cynhyrchion neu wasanaethau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at liniaru newid hinsawdd. Mae enghreifftiau'n cynnwys ond heb eu cyfyngu i ynni adnewyddadwy; deunyddiau cynaliadwy; rheoli adnoddau; atal llygredd; coedwigaeth; amaethyddiaeth; technoleg lân; technolegau lliniaru.

Datgarboneiddio: lleihau allyriadau CO₂ neu nwyon tŷ gwydr eraill o gynnyrch, sefydliad neu wlad gyda'r nod cyffredinol o'u dileu (cyn belled ag y bo modd). Yn ymarferol, mae hyn yn golygu symud oddi wrth ddefnyddio tanwydd ffosil i ffynonellau ynni carbon isel amgen, yn ogystal â lleihau'r allyriadau a gynhyrchir yn ehangach ar draws y gadwyn werth (yn ogystal â'r defnydd o ynni yn unig).

Allyriadau nwyon tŷ gwydr: nwyon niweidiol sy'n cael eu hallyrru, yn enwedig oherwydd gweithgareddau dynol, sy'n gwaethygu effeithiau newid hinsawdd. Er enghraifft, mae llosgi tanwydd ffosil (glo, olew a nwy naturiol) yn rhyddhau carbon deuocsid (CO₂).

Uchelgais sero net: y nod o gyfyngu cynhesu byd-eang i ymhell o dan 2°C, fel y cytunwyd gan arweinwyr y byd yng Nghytundeb Paris.

Cytundeb Paris: cytundeb rhyngwladol ar newid hinsawdd a gytunwyd gan 175 o wledydd ym Mharis yn 2015. Daeth i rym ym mis Tachwedd 2016. Ei nod allweddol yw cyfyngu cynnydd mewn tymheredd byd-eang i 2 radd yn uwch na lefelau diwydiannol erbyn diwedd y ganrif hon ac yn ddelfrydol cadw'r cynnydd mewn tymheredd islaw 1.5 gradd.

Menter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTi): partneriaeth a gynhelir gan y Prosiect Datgelu Carbon (CDP), Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig, Sefydliad Adnoddau'r Byd a'r Gronfa Natur Fyd-eang. Mae'r fenter yn helpu cwmnïau i osod targedau lleihau allyriadau a gefnogir gan wyddoniaeth hinsawdd.

Allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3: Caiff allyriadau nwyon tŷ gwydr eu categorioedd mewn tri 'chwmpas', sy'n caniatáu i gwmnïau fesur eu hallyriadau'n gywir, yn eu gweithrediadau eu hunain ac yn eu cadwyni cyflenwi ehangach.

Asedau sy'n cael eu gadael ar ôl: asedau sydd wedi dod yn llai gwerthfawr wrth drawsnewid i economi carbon isel. Mae pyllau glo, er enghraifft, yn debygol o ddod yn llai gwerthfawr wrth i gymdeithas ddod yn llai dibynnol ar losgi tanwydd ffosil.

Cysylltiadau â thanwydd ffosil: mesur o amlygiad portffolio i gwmnïau sydd â chyswllt diwydiant â thanwydd ffosil (glo thermol, olew a nwy); yn benodol, perchnogaeth ar gronfeydd wrth gefn, referiw cysylltiedig a chynhyrchu pŵer.

Cyd-fynd â'r trawsnewid: mesur i ba raddau y mae portffolio (neu gwmni) yn cyd-fynd â'r trawsnewid i economi carbon isel. Mae'r SBTi yn caniatáu i gwmnïau fesur i ba raddau y mae eu modelau busnes yn cyd-fynd â lleihau allyriadau yn unol â'r nodau a bennir o dan Gytundeb Paris, gan gynnwys canllawiau penodol i'r sector.

Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd: fframwaith sy'n nodi gweithdrefnau i wella tryloywder ynghylch rheoli ac adrodd ar risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Dwysedd carbon cyfartalog wedi'i bwysoli (WACI): metrig dwysedd allyriadau sy'n dangos amlygiad portffolio i gwmnïau carbon-ddwys, a fynegir fel rheol mewn tunelli o CO₂e/referiw 1USDm.

YMWADIADAU

Lluniwyd y datgeliad hwn drwy ddefnyddio gwybodaeth gan MSCI ESG Research LLC, neu ei gwmnïau neu ddarparwyr gwybodaeth cysylltiedig. Er bod darparwyr gwybodaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys MSCI ESG Research LLC a'i chymdeithion ("Partïon ESG") ymhlith eraill yn cael gwybodaeth ("Gwybodaeth") o ffynonellau a ystyrir ganddynt yn ddibynadwy, nid oes yr un o Bartïon ESG yn gwarantu nac yn rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch gwreiddioldeb, cywirdeb a/na chyflawnrwydd unrhyw ddata yn y ddogfen hon, ac maent yn ymwrthod yn benodol â phob gwarant ddatganedig neu ymhlyg, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwerthadwyedd ac addasrwydd at ddiben penodol.

Dim ond at eich defnydd mewnol y ceir defnyddio'r Wybodaeth, ac ni cheir ei hatgynhyrchu na'i hailddosbarthu ar unrhyw ffurf, na'i defnyddio'n sail ar gyfer, nac fel cydran mewn, unrhyw offerynnau neu gynnyrch neu fynegeion ariannol. Efallai y bydd rhai cronfeydd yn seiliedig ar fynegeion MSCI, neu'n gysylltiedig â nhw, ac y gallai MSCI gael iawndal yn seiliedig ar asedau'r gronfa sydd o dan reolaeth, neu drwy fesurau eraill. Mae MSCI wedi sefydlu rhwystr gwybodaeth rhwng ymchwil i fynegeion a Gwybodaeth benodol. Ymhellach, ni ellir defnyddio dim o'r Wybodaeth ar ei phen ei hun i bennu pa warantau i'w prynu neu i'w gwerthu, neu pryd i'w prynu neu eu gwerthu.

Ni fydd unrhyw un o'r Partïon ESG yn atebol am unrhyw wallau na hepgoriadau yn gysylltiedig ag unrhyw ddata yn y ddogfen hon, nac yn atebol am unrhyw ddifrod uniongyrchol, anuniongyrchol, arbennig, cosbol, canlyniadol, nac unrhyw ddifrod arall (gan gynnwys elw a gollwyd), hyd yn oed os caiff wybod am y posibilrwydd o ddifrod o'r fath.